# PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU

Dydd Mercher, 22 Mawrth 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.W.H. Richards (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, G. Davies, T. Devichand, J.S. Edmunds, W.J.W. Evans, W.T. Evans (yn lle D. Price), J.K. Howell, A.W. Jones, A.G. Morgan, R. Thomas, S.E. Thomas (yn lle A. Lenny) a D.E. Williams

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr D.M. Jenkins, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau (Dirprwy Arweinydd)
P.A. Palmer, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Cymunedau (Dirprwy Arweinydd)

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
O. Bowen, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol;
N. Daniel, Pennaeth TGCh;
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
P. Sexton, Pennaeth Archwilio, Risg a Chaffael;
P.R. Thomas, Dirprwy Brif Weithredwr (Rheoli Pobl a Pherfformiad);
H. Morgan, Rheolwr Datblygu Economaidd;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin - 10.00am - 11.30 am**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Lenny a D. Price. Derbyniwyd ymddiheuriad hefyd gan y Cynghorydd L.M. Stephens - Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau Dynol, Effeithlonrwydd a Chydweithio.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**3. DATGAN CHWIP WAHARDDEDIG**

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

**4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

**5. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 28 Ebrill 2017.**

**6. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD CORFFORAETHOL CYNLLUN GWELLA 2016/17**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi golwg gyffredinol ar sut yr oedd pob swyddogaeth graffu'n perfformio mewn perthynas â'r camau gweithredu a'r mesurau a geir yng Nghynllun Gwella'r Awdurdod ar gyfer 2016/17, fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2016.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 7. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD ADRANNOL CYNLLUN GWELLA 2016/17

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Monitro Perfformiad Adrannol – Cynllun Gwella 2016/17 a oedd yn rhoi golwg gyffredinol ar berfformiad adrannau'r Prif Weithredwr a'r Gwasanaethau Corfforaethol yn ystod Chwarter 3 [31 Hydref – 31 Rhagfyr] o 2016/17.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

- Mewn perthynas â'r ffaith bod yr ymatebion i geisiadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn brin o'r targed, er o 0.03% yn unig, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y cafwyd nifer uchel o geisiadau gan gwmnïau preifat a'r wasg am faterion megis Brexit a'r Fargen Ddinesig;
- Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod statws perfformio Gweithred 12008 mewn gwirionedd yn unol â'r targed wrth inni aros am ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru;
- O ran absenoldeb salwch roedd hi'n amlwg ymhle roedd y 'mannau problemus' ac ystyriwyd y byddai'n briodol, os mai dyna ddymuniad y Pwyllgor, gofyn i Benaethiaid Gwasanaeth y meysydd hynny ddod i esbonio'r cyfraddau uchel o absenoldeb salwch, yn enwedig absenoldebau sy'n ymwneud â straen, a'r camau a gymerir i fynd i'r afael â'r materion hyn. Dywedodd y Cadeirydd y byddai hyn yn fater y gallai'r Pwyllgor fynd ar ei drywydd o bosibl ar ôl yr etholiadau sydd ar ddod;
- Cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol i gael cadarnhad gan Reolwr y Gwasanaethau Refeniw ynghylch y cymorth sydd ar gael i unigolion sy'n ei chael hi'n anodd talu'r Dreth Gyngor;
- Rhoddodd y Pennaeth TGCh wybod i'r Pwyllgor am y cynigion sydd wrth law i ddarparu aelodau a'r swyddogion â'r offer mwyaf effeithlon i ddiwallu eu hanghenion TGCh a sicrhau, ar yr un pryd, bod cyn lleied o risg i ddiogelwch â phosibl. Yn dilyn yr etholiadau sydd ar ddod cynigir dewis i Gynghorwyr o blith llechen Miix, gliniadur neu iPad.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 8. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2016/17

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Monitro Cyllideb Gorfforaethol yr Awdurdod ac i adroddiadau adrannol y Prif Weithredwr a'r Gwasanaethau Corfforaethol fel yr oeddent ar 31 Rhagfyr 2016 mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2016/17.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

- Nododd y Swyddogion y pryderon a fynegwyd ynghylch y costau sy'n gysylltiedig â dileu swyddi ysgol ac ymddeoliadau cynnar gwirfoddol pan fo cyllidebau ysgolion yn cael eu cwtogi. Nodwyd bod £200K ychwanegol wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2017/18 ar gyfer ymddeoliadau cynnar gwirfoddol ac roedd polisi adleoli ar waith i geisio lleihau costau;
- Mynegwyd pryder ynghylch lleihau amser y staff sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau brecwast am ddim a'r effaith ar forâl;
- Mynegwyd pryder ynghylch yr amrywiad gwerth £880k a ragwelir mewn perthynas â Chartrefi Gofal Preifat a Gwirfoddol i Bobl Hŷn ond

cydnabuwyd mai ymholiad oedd hwn, ynghyd â'r ymholiadau eraill a wnaed, y byddai angen ei godi yn y Pwyllgor Craffu perthnasol ar gyfer y maes gwasanaeth hwnnw;

- Mewn perthynas â chynllun Gofal Ychwanegol Rhydaman / Llandybïe, nodwyd mai fflatiau hunangynhaliol oedd y rhain ac nad oedd gofal ychwanegol yn cael ei gynnig. Cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol i anfon y wybodaeth hon at y swyddogion perthnasol a chadarnhau'r rhesymau dros danwario;
- Cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol i gael dadansoddiad gan y swyddogion priodol o'r gwariant o £70k ar gynllun Gofal Ychwanegol Ardal Llanelli. Hefyd, cytunodd i gael rhagor o wybodaeth sy'n ymwneud â dadansoddi cyllidebau'r cynlluniau ar gyfer Ysgolion Cynradd Llandeilo a Rhydaman;
- Cydnabuwyd bod y gwaith o garthu harbwr Porth Tywyn wedi cael effaith yn ei dro ar yr incwm a ddaw o ffioedd yr angorfa.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

**9. Y PWYLLGOR CRAFFU - POLISI AC ADNODDAU: Y DIWEDDARAF YNGHYLCH CAMAU GWEITHREDU AC ATGYFEIRIADAU**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad a fanylai ar y cynnydd o ran y camau gweithredu, y ceisiadau, neu'r atgyfeiriadau oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Craffu.**

**10. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU**

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad "peidio â chyflwyno".

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.**

**11. COFNODION**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 8 Chwefror 2017 gan eu bod yn gywir.**

| ________________________ | ________________________ |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |